# DYDDIAD CAU GWAITH CWRS

# FFURFLEN GAIS AM ESTYNIAD

**I israddedigion ac uwchraddedigion ar gyrsiau a ddysgir**

**I'W LLENWI GAN Y MYFYRIWR**

**Noder:** cewch ddefnyddio'r ffurflen hon i ofyn am estyniad ar gyfer mwy nag un elfen i'w asesu mewn modiwl, ond rhaid llenwi mwy nag un ffurflen os oes angen estyniad ar gyfer dau fodiwl neu fwy.

**Enw'r myfyriwr**:

**Rhif y myfyriwr**:

**Ebost y myfyriwr**:

**Cod a theitl y modiwl**:

**Rhestrwch elfennau'r asesiad yr ydych chi angen estyniad ar eu cyfer**:
(e.e. traethawd, adolygiad o lyfr)

**Y dyddiad(au) cau gwreiddiol**:

| |
|---|
| *Rhowch eich rheswm/rhesymau am fethu â chyflwyno'r asesiad mewn pryd:* |

Tystiolaeth ategol wedi'i hatodi? **Oes** / **Nac oes** (dilëer fel sy'n briodol)

| |
|---|
| *Os **na**, rhowch eich rheswm/rhesymau am fethu ag atodi tystiolaeth ategol ar yr adeg hon a rhoi amcan pryd y gall eich Adran ddisgwyl derbyn y dystiolaeth. Cofiwch, os nad ydych yn cyflwyno tystiolaeth ategol sy'n dangos yn glir pam y mae arnoch angen estyniad, caiff eich estyniad ei ddiddymu a rhoddir marc o sero am yr asesiad yn y Bwrdd Arholi dilynol.* |

**Pwysig i'w nodi:**

- Dim ond mewn achos lle mae **amgylchiadau meddygol/personol clir** (a ategir gan dystiolaeth ddogfennol annibynnol) sydd wedi effeithio ar eich gallu i gyflwyno gwaith cwrs mewn pryd y gellir caniatáu estyniad.
- Os caniateir estyniad, fe fydd yn gyfnod **rhwng un a phedwar diwrnod ar ddeg calendr**, er ein cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Serch hynny, mae'n bwysig nodi nad yw'n bosibl caniatáu estyniad a fydd yn golygu eich bod yn cyflwyno gwaith ar ôl diwrnod olaf cyfnod yr arholiadau yn y semester dan sylw. Mewn rhai achosion, gall hyn olygu fod cyfnod hiraf posibl yr estyniad yn llai na phedwar diwrnod ar ddeg calendr. Os na fydd hyn yn ddigon, fe'ch cynghorir i ddilyn y drefn Amgylchiadau Arbennig: (https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/name-193260-cy.html ).
- Dylech fynd â'r ffurflen hon i'r swyddfa fathemateg a ffiseg **o leiaf dri diwrnod gwaith** cyn y dyddiad cau. Fel arfer, bydd ceisiadau a dderbynnir lai na thri diwrnod cyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried gan Fwrdd Amgylchiadau Arbennig yr Adran/Cyfadran, a chynghorir myfyrwyr i ddilyn y drefn Amgylchiadau Arbennig. Yr unig eithriad i'r amod hwn fydd y ffaith ei bod yn amlwg o'r dystiolaeth sy'n cael ei darparu fod yr amgylchiadau meddygol/personol wedi codi o fewn y cyfnod hwn o dri diwrnod.
- Os nad oes modd ichi gyflwyno tystiolaeth ategol gyda'ch ffurflen, rhaid rhoi rhesymau clir yn esbonio pam na allwch wneud hynny a rhoi amcan i'r Adran pryd y caiff y dystiolaeth ei darparu. Rhaid i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno man pellaf erbyn diwrnod olaf cyfnod yr arholiadau yn y semester dan sylw. Mae'n bwysig nodi, os nad oes tystiolaeth ategol yn cael ei chyflwyno sy'n dangos yn glir pam eich bod angen estyniad, caiff unrhyw estyniad a roddwyd ei ddiddymu a rhoddir marc o sero am yr asesiad yn y Bwrdd Arholi dilynol.
- Rhoddir gwybod i fyfyrwyr beth yw'r penderfyniad ynglŷn â'r cais trwy ebost **o fewn 2 ddiwrnod gwaith** ar ôl derbyn y cais.
- **Ni fydd ceisiadau ôl-weithredol am estyniad yn cael eu hystyried**. Mewn achos lle methir â chadw at y dyddiad cau, cynghorir myfyrwyr i ddilyn y drefn Amgylchiadau Arbennig (gweler uchod).
- Mae rhai elfennau a waith i'w asesu na ellir o bosibl caniatáu estyniad ar eu cyfer, er enghraifft, cyflwyniad grŵp neu berfformiad grŵp a asesir. Os ydych chi'n ansicr a ellir caniatáu estyniad ai peidio holwch eich Adran cyn cyflwyno'r ffurflen hon.

**I'W LLENWI GAN Y TIWTOR BLWYDDYN:**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tystiolaeth wedi'i atodi?** | **OES** | | **NA** | | **DISGWYL** | |
| **A gymeradwywyd estyniad?** | **DO** | | **NA** | | | |

**Sylwadau:**

**Penderfynwyd gan:**

**Dyddiad cyflwyno newydd:**

**Dyddiad yr ebost yn rhoi gwybod i'r myfyriwr:**

**I'W LLENWI GAN SWYDDFA'R ADRAN:**

**Derbyniwyd gan:**

**Amser a dyddiad:**

# CEISIO AM ESTYNIAD I DDYDDIAD CAU CYFLWYNO GWAITH CWRS

## Ym mha amgylchiadau y gallaf wneud cais am estyniad i ddyddiad cau cyflwyno gwaith cwrs?

- Dim ond mewn achos lle mae **amgylchiadau meddygol/personol clir** (a ategir gan dystiolaeth ddogfennol annibynnol) sydd wedi effeithio ar eich gallu i gyflwyno gwaith cwrs mewn pryd y gellir caniatáu estyniad. Mae tystiolaeth ddogfennol dderbyniol yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
  - tystysgrif feddygol/iechyd ag arni ddyddiad perthnasol i'r asesiad
  - tystysgrif marwolaeth
  - llythyr cefnogol/eglurhaol gan un o wasanaethau cymorth y Brifysgol, neu unrhyw sefydliad cymorth allanol addas. I weld manylion llawn y mathau o lythyrau y gellir eu darparu gan y Brifysgol ewch i: [http://www.aber.ac.uk/cy/student-support/letters/](http://www.aber.ac.uk/cy/student-support/letters/)
  - os yw eich gallu i gyflwyno gwaith cwrs mewn pryd wedi ei amharu gan amgylchiadau yn ymwneud â thrydydd person, dylech gyflwyno tystiolaeth ddogfennol annibynnol sy'n esbonio'r effaith a gafodd hyn arnoch chi
  - Llythyr Ymgynghoriad Anhwylderau Cyffredin

  Mae dogfennau na fyddant yn cael eu derbyn yn dystiolaeth yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
  - hunan-ardystiad
  - datganiad wedi'i ysgrifennu gennych chi'ch hun
  - tystysgrif feddygol/iechyd nad yw'n berthnasol i ddyddiad yr asesiad

- **Nid** yw'r canlynol yn **rhesymau dilys ar gyfer gwneud cais am estyniad**:
  - trafferthion gyda chyfrifiadur neu beiriannau argraffu
  - methu â chael gafael ar adnoddau
  - salwch lle nad oes tystiolaeth feddygol ar gael
  - mwy nag un dyddiad cau ar yr un dydd
  - methu ateb y cwestiwn neu cael trafferth gyda'r deunydd
  - gemau argyfwng, cynyrchiadau perfformio, teithiau astudio adrannol
  - gweithgaredd an-academaidd (e.e. hyfforddiant milwrol gwirfoddol)

## Beth sydd angen ei wneud i ymgeisio am estyniad i ddyddiad cau gwaith cwrs?

- Dim ond **Swyddogion Estyniadau** yr adrannau sy'n gallu caniatáu estyniad, a hynny ddim ond os oes Ffurflen Gais Estyniad i Ddyddiad Cau Gwaith Cwrs wedi'i llenwi a'i chyflwyno.
  - **Swyddog Estyniadau Blywyddyn Sylfaen** Dr Alex Pitchford (agp1)
  - **Swyddog Estyniadau Blywyddyn Un**: Dr Adam Vellender (asv2)
  - **Swyddog Estyniadau Blywyddyn Dau**: Dr Adil Mughal (aqm)
  - **Swyddog Estyniadau Blywyddyn Tri**: Dr Kim Kenobi (kik10)
  - **Swyddog Estyniadau Blywyddyn Pedwar (MMath)**: Dr Tudur Davies (itd)
  - **Swyddog Estyniadau Meistr (MSc)**: Dr Edel Sherratt (eds)
  - Dylech roi'r Ffurflen Gais Estyniad i Ddyddiad Cau Gwaith Cwrs a'r dystiolaeth ategol i swyddfa fathemateg a ffiseg **o leiaf 3 diwrnod gwaith** cyn y dyddiad cau. Bydd ceisiadau a dderbynnir lai na thri diwrnod cyn y dyddiad cau yn cael eu hystyried gan Fwrdd Amgylchiadau Arbennig yr Adran/Cyfadran, a chynghorir myfyrwyr i ddilyn y drefn Amgylchiadau Arbennig ([https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/name-193260-cy.html](https://www.aber.ac.uk/cy/aqro/handbook/taught-schemes/name-193260-cy.html) . Yr unig eithriad i'r amod hwn fydd y ffaith ei bod yn amlwg o'r dystiolaeth sy'n cael ei darparu fod yr amgylchiadau meddygol/personol wedi codi o fewn y cyfnod hwn o dri diwrnod.

- Bydd y Swyddog Estyniadau yn ystyried eich cais, ac yn rhoi gwybod ichi am y canlyniad **trwy e-bost** o fewn **dau ddiwrnod gwaith** i dderbyn y cais.
- **Ni fydd ceisiadau ôl-weithredol am estyniad yn cael eu hystyried**. Mewn achos lle methir â chadw at y dyddiad cau, cynghorir myfyrwyr i ddilyn y drefn Amgylchiadau Arbennig (gweler uchod).
- Os ydych eisiau siarad â'r Swyddog Estyniadau yn uniongyrchol, dylech anfon ebost ato/ati i drefnu amser i gyfarfod (gweler manylion cyswllt uchod).

**Beth yw'r meini prawf a ddefnyddir gan y Swyddog Estyniadau wrth benderfynu caniatáu estyniad neu beidio?**
Wrth benderfynu caniatáu estyniad neu beidio, bydd y Swyddog Estyniadau yn ystyried y cwestiynau canlynol:

***1. A yw'r dystiolaeth ddogfennol a ddarparwyd i ategu'r cais am estyniad yn ddigonol /foddhaol?***

Os mai 'na' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, ni chaniateir estyniad.

Efallai y bydd y Swyddog Estyniadau yn gofyn am ragor o dystiolaeth i ategu'r cais am estyniad; ymhob achos heblaw'r rhai mwyaf eithriadol, byddem yn disgwyl i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno cyn dyddiad cau gwreiddiol y gwaith cwrs.

Os nad oes modd ichi gyflwyno tystiolaeth ategol gyda'ch ffurflen, rhaid ichi roi rhesymau clir am hynny a rhoi amcan i'ch adran hefyd pryd y caiff y dystiolaeth ei chyflwyno. Rhaid i'r dystiolaeth gael ei chyflwyno man pellaf erbyn diwrnod olaf cyfnod yr arholiadau yn y semester dan sylw.

Mae'n bwysig nodi, os caniateir estyniad o dan yr amgylchiadau hyn ac nad ydych yn darparu tystiolaeth ategol sy'n dangos yn glir pam y mae angen estyniad arnoch, caiff yr estyniad ei ddiddymu a rhoddir marc o sero am yr asesiad yn y Bwrdd Arholi dilynol.

Os mai 'do' yw'r ateb i'r cwestiwn hwn, caniateir estyniad. Disgwylir ichi gyflwyno eich gwaith ar yr un adeg o'r dydd ag y byddech wedi gwneud pe na chaniatawyd estyniad. Er enghraifft, os mai 3.00pm ddydd Mercher 3 Tachwedd oedd amser y dyddiad cau gwreiddiol a'ch bod yn cael wythnos o estyniad, bydd angen ichi gyflwyno erbyn yr amser estynedig, sef 3.00pm ddydd Mercher 10 Tachwedd.

***2. Beth yw amseru/hyd/maint yr amgylchiadau meddygol/personol yng nghyswllt y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r gwaith cwrs?***

Bydd y Swyddog Estyniadau yn ystyried a yw'r amgylchiadau a ddisgrifiwyd wedi effeithio ar eich gallu i gyflwyno eich gwaith cwrs mewn pryd.

<u>Amseru</u>: Os yw'r amgylchiadau'n codi ychydig cyn y dyddiad cau, a chymryd yn ganiataol yr ystyrir bod yr amgylchiadau'n ddilys ac nad oedd modd eu hosgoi, fe ystyir caniatáu estyniad byr. Ond, os buoch yn sâl am un diwrnod dair wythnos cyn y dyddiad cau, ni chaniateir estyniad.

<u>Hyd</u>: Os ydych yn sâl am wythnos, yn dechrau tair wythnos cyn y dyddiad cau, ystyrir caniatáu estyniad o rai dyddiau. Ond, os ydych yn sâl am gyfnod hwy na hynny, yn dechrau tair wythnos cyn y dyddiad cau, ystyrir caniatáu estyniad hirach.

<u>Maint</u>: Yn aml mae hyn yn anodd ei asesu gan y gall yr un math o amgylchiadau effeithio ar fyfyrwyr mewn gwahanol ffyrdd; dylid defnyddio synnwyr cyffredin.

Yr egwyddor gyffredinol y bydd y Swyddog Estyniadau yn ei dilyn yw ceisio sicrhau bod cyfnod yr estyniad yn cyfateb i'r cyfnod amser a gollwyd gennych yn gweithio ar yr aseiniad ei hun; efallai na fydd hyn o angenrheidrwydd yn cyfateb i'r cyfnod y buoch yn sâl neu'n methu â bod yn y Brifysgol (h.y. gallai fod yn llai na hynny).

Caniateir estyniad am gyfnod rhwng un a phedwar diwrnod ar ddeg calendr, er ein cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb. Wrth nodi dyddiau calendr, mae hyn yn golygu bod penwythnosau a chyfnodau gwyliau yn cael eu cynnwys, felly gallai fod angen ichi gyflwyno eich gwaith ar ddydd Sadwrn neu Ŵyl Banc neu yn ystod un o gyfnodau gwyliau'r Brifysgol. Bydd eich Swyddog Estyniadau yn rhoi ystyriaeth i'r math o waith rydych yn ei gyflwyno wrth osod y dyddiad cau diwygiedig a bydd yn ystyried a yw'n ymarferol ai peidio ichi gyflwyno gwaith y tu allan i oriau arferol swyddfa.

Os yw'r Swyddog Estyniadau yn ystyried bod yr amgylchiadau a ddisgrifir yn rhai mor llym eu bod yn anymarferol ichi gwblhau'r gwaith o fewn i'r cyfnod hiraf y gellir ei ganiatáu, cewch eich cyfarwyddo i ddilyn y drefn Amgylchiadau Arbennig. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid ichi lenwi'r ffurflen Amgylchiadau Arbennig a'i chyflwyno gyda'r dystiolaeth ddogfennol ategol wreiddiol i'w hystyried gan Fwrdd Amgylchiadau Arbennig yr Adran/Cyfadran.

***3. O ystyried ymrwymiadau astudio eraill y myfyriwr, a'r amgylchiadau meddygol/personol a gyflwynwyd, a fyddai'n rhesymol disgwyl i'r myfyriwr fod wedi cwblhau'r aseiniad erbyn y dyddiad cau gwreiddiol?***

Os BYDDAI, ni ddylid caniatáu estyniad.
Os NA, yna dylid caniatáu estyniad.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 2.5 | Dyddiad Cyhoeddi: | Awst 2019 |
| Rheswm am ddiweddaru: | Newid i ychwanegu'r 'Llythyr Ymgynghoriad Anhwylderau Cyffredin' i'r rhestr o dystiolaeth ddogfennol dderbyniol. | | |
| Cymeradwywyd: | Cofrestrfa Academaidd | Dod i rym o: | Awst 2019 |
| Cyswllt: | Kerry Bertenshaw, Cofrestrydd Cynorthwyol (qaestaff@aber.ac.uk) | | |